

**Alfredo Cramerotti: Ffuglen Sy'n Edrych Yn Real Sy'n Edrych Fel Ffuglen**

*'O ddysgu darllen eich hun fel ffuglen, yn ogystal â ffaith, rydych yn cael rhyddid annisgwyl.'*
Jeanette Winterson, Frieze Rhifyn 185, Mawrth 2017

Nid dim ond cofnod, tystiolaeth, dogfen am amser / gofod / sefyllfa neilltuol yw ffeithiau. Nid mater o gronni data empirig yn unig mohonynt - yn dyngedfennol, mae a wnelont hefyd â'r cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn mewn perthynas â'r gwirioneddau neu'r tystiolaethau hynny. Hefyd, mae'r fframweithiau cysyniadol (canfyddiad unigol neu gydganfyddiad) yr ydym yn gosod y ffeithiau hynny ynddynt yn bwysig. Mae gwahaniaeth rhwng rhywun nad yw ond yn hel a chasglu "gwirioneddau" a'r sawl sydd mewn difrif yn ymofyn gwirionedd. Y ffordd o feddwl yw'r gwahaniaeth.

Mae arwyddocâd, symbolaeth, hyd yn oed harddwch, yn deillio o droi digwyddiadau cyffredin yn naratif sy'n troi profiad yn ymwybyddiaeth; yn troi'r hyn sydd yna'n barod, neu'r hyn sydd eisoes wedi digwydd, yn symudiad ar y synhwyrau ac yn faeth i'r meddwl. Yn yr un ffordd ag y mae'r syniad mwyaf swrrealaidd neu ryfedd yn cynnwys elfen o realiti dynol, mae angen diwyg anarferol yn aml ar wirionedd pwysig i fod yn gyraeddadwy, yn hygyrch, i gael ei ddeall, ei dderbyn ac inni weithredu arno.


Mae cynhyrchu naratif yn gallu rhyddhau'r unigolyn o'r disgwyliad i ddarparu'r ffurf 'iawn' ar wirionedd. Mewn ffordd, nid yw'n bwysig cael yr 'ansawdd' yn iawn o'r cychwyn, oherwydd yn y tymor hir mae swmp yn arwain at ansawdd; yn amlach na pheidio mae'r stori wan, y broses wallus, neu ddarn afrosgo o gerddoriaeth yn gwarantu rhagoriaeth a gwreiddioldeb yn ddiweddarach. A bob amser, rhaid cynnwys gwendidau a diffygion yn y rhagoriaeth honno. Dyna sy'n gwneud y gwaith yn un y gallwn ymdeimlo ag ef, yn ddynol, yn effeithiol. Fel y dywed Hanif Kureishi, mae ffaeleddau yn tystio i ryw chwaeth, ac egni cadarnhaol.

Yn yr ystyr hwnnw, nid yw'r cysyniad o berffeithrwydd yn bodoli, ond yn yr un modd does dim amheuaeth am yr ysfa i ymgyrraedd ato. Boed chi'n mentro'ch einioes yn dringo'n rhydd ar eich pen eich hun ar waliau gwenithfaen El Capitan ym Mharc Cenedlaethol Yosemite heb raff i'ch dal - sy'n golygu y gall y camgymeriad lleiaf roi diwedd ar fywyd y dringwr; neu'n weithgarwch stiwdio artist neu ysgrifennwr, lle mae'r perygl nid ar ffurf angau corfforol ond lles meddyliol - methu talu'r biliau neu syrthio i iselder cynyddol; mae'r naill senario a'r llall (ymysg llawer o rai eraill) yn rhoi'r lle blaenaf i chwilio am berffeithrwydd, ac yn cyffwrdd yn uniongyrchol â'ch bywyd chi. Er mwyn dechrau dringo neu wneud celfyddyd, rhaid cydnabod cymaint y mae angen y sicrwydd hwnnw ar yr unigolyn, a pha mor bell i ffwrdd ydyw yr un pryd.

Mae'r naratif bisâr, ffrwyth y dychymyg, y ffuglennol yn datblygu heb wybod ymlaen llaw a fydd y darnau'n disgyn i'w priod le; dim ond yn ddiweddarach y gellir darganfod (yn llythrennol) y 'dyluniad' yn ei gyfanrwydd a'r canlyniad - copa El Capitan, neu waith celf. Rhaid credu yn y siwrnai, hyd yn oed os nad yw weithiau yn eich arwain i ben y daith; neu, o leiaf, nid i'r pen taith yr oeddech wedi'i ddychmygu. Rhwng diffyg amynedd a synfyfyrio, mae'n well dysgu peidio â gadael i ffeithiau fod yn drech na ffuglen; oherwydd efallai fod ffuglen yn nes at realiti na ffeithiau.



From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019



From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019



From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019


Brexit Shmexit !
NEW EUROPEANS
PANTS TO BREXIT
NEVER GONNA GIVE
USUK

From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019




From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019


Yr Un Hen Rai
I OSGOI
CAEL
DIRWY,
PEIDIWCH
Â LLYGRU!
£75

From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019



From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019



From *'The Last Judgement'* by S Mark Gubb
Installation view at MOSTYN | Wales UK 2019